Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

# Strategaeth y Chweched Senedd

Rhagfyr 2021

## Cefndir

**1.** Mae'r Senedd wedi sefydlu'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch ("y Pwyllgor") i edrych ar bolisi a deddfwriaeth, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif ar iechyd corfforol, iechyd meddwl ac iechyd y cyhoedd a llesiant pobl Cymru, gan gynnwys y system gofal cymdeithasol.

**2.** Mae'r ddogfen hon yn nodi ein dull gweithredu strategol mewn perthynas â'n gwaith yn y Chweched Senedd.

## Sut y gwnaethom ddatblygu ein strategaeth

**3.** Fe wnaethom ni gynnal ystod o weithgareddau i lywio datblygiad ein dull gweithredu strategol ar gyfer y Chweched Senedd:

- Rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2021, fe wnaethom ni ymgynghori â rhanddeiliaid a'r cyhoedd ar flaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd.
- Ar 23 Medi 2021, cawsom ddiweddariad ar y pandemig COVID-19 gan Brif Swyddog Meddygol Cymru, y Prif Ymgynghorydd Gwyddonol dros Iechyd, a Chell Cynghori Technegol Llywodraeth Cymru, gan gynnal sesiwn graffu gyda Gweinidogion Llywodraeth Cymru â chyfrifoldeb am iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.
- Ar 7 Hydref 2021, fe wnaethom ni gynnal trafodaeth breifat gydag academyddion ag arbenigedd mewn materion sy'n codi mewn perthynas ag adferiad COVID.
- Ar 21 Hydref 2021, fe wnaethom ni gynnal sesiwn cynllunio strategol a hwyluswyd yn allanol.

## Ein gweledigaeth ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol

**4.** Ein gweledigaeth ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol dros y pum mlynedd nesaf yw:

- Ailosod ar ôl COVID, sy'n arwain at:
    - Bawb yng Nghymru yn byw bywydau hirach ac iachach.
    - System iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gweithio'n fwy effeithiol nag yr oedd cyn y pandemig.
    - Pobl yn defnyddio systemau iechyd a gofal gan wybod pa wasanaethau i'w cyrchu i ddiwallu eu hanghenion, a chael profiad mwy cadarnhaol.

**5.** Er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon, bydd angen:

- Integreiddio gwell rhwng iechyd a gofal cymdeithasol.
- Cynnydd o ran diwygio gofal cymdeithasol, gan gynnwys gwell cynaliadwyedd ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol.
- Lefelau uwch o lythrennedd iechyd a chyfeirio rhwng gwasanaethau.
- Gwell mynediad at wasanaethau iechyd meddwl, yn enwedig i bobl ifanc a phobl sydd â'r anghenion mwyaf acíwt.
- Cynnydd o ran mynd i'r afael â phrinder gweithlu ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys datblygu'r gweithlu a gwasanaethau gofal sylfaenol fel bod pobl yn gallu cael mynediad at arbenigedd priodol yn agos at gartref.
- Morâl uwch ar draws y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol.
- Gwell hunanreolaeth a hunanofal o gyflyrau cronig.
- Gwell safonau ac arferion mewn perthynas ag iechyd menywod.

## Ein rôl

**6.** Ein rôl ni yw sbarduno newid drwy ddylanwadu ar Lywodraeth Cymru a'r sector iechyd a gofal cymdeithasol.

**7.** Byddwn yn gwneud hyn drwy'r canlynol:

- Cynnal ymdeimlad o ddiben cyffredin trawsbleidiol mewn perthynas â'r weledigaeth rydym yn ei rhannu, gan hefyd gydnabod a pharchu y bydd gan Aelodau safbwyntiau gwleidyddol gwahanol.

- Cadw mater neu faterion blaenoriaeth ar agenda'r Llywodraeth, neu wthio mater neu faterion i fyny'r agenda, drwy ymchwiliadau, gwaith craffu cyffredinol, trafodaethau anffurfiol gyda'r Gweinidog, ceisio sesiynau briffio gan Lywodraeth Cymru, gohebiaeth, monitro sut mae argymhellion yn cael eu gweithredu, a chwestiynau neu gyfraniadau'r Aelodau eu hunain yn y Cyfarfod Llawn ac ati.

- Adnabod rhwystrau i weithredu neu newid, a sut y gellir mynd i'r afael â rhwystrau o'r fath, a mynd ar drywydd gwaith i weld a aethpwyd i'r afael â'r rhwystrau. Gallai hyn hefyd gynnwys gwaith craffu mwy systematig ar ymatebion Llywodraeth Cymru, a mynd ar drywydd ymatebion nad ydynt yn ddigon clir, cadarn neu gynhwysfawr.

- Cynllunio gwaith mewn digon o amser roi eglurder i randdeiliaid, golygu bod modd meithrin perthynas â phobl na fyddai eu lleisiau'n cael eu clywed fel arall, a gwneud y defnydd gorau o adnoddau ac amser, gan hefyd gadw digon o hyblygrwydd a chapasiti i'n galluogi i ymateb i faterion amserol neu faterion sy'n codi.

- Rhoi amser o'r neilltu o bryd i'w gilydd i fyfyrio ar y cynnydd a wnaed tuag at y weledigaeth gyffredinol, pa gyfraniad rydym wedi'i wneud, a pha gamau pellach y gallem eu cymryd i lywio cynnydd.

## Materion trawsbynciol

**8.** Bydd y themâu canlynol yn rhedeg drwy ein holl waith:

- Rhoi pobl wrth galon iechyd a gofal Cymdeithasol
  Er enghraifft, pwy mae polisïau neu benderfyniadau'n effeithio arnynt; effeithiau gwahanol ar wahanol grwpiau neu gymunedau; ffyrdd o gyfathrebu â phobl, ymgysylltu â nhw, ymgynghori â nhw neu eu cynnwys.

- Arloesi er mwyn gwella
  Er enghraifft, alinio ag agenda trawsnewid Llywodraeth Cymru; arloesi mewn prosesau, technoleg, offer, hyfforddiant ac agweddau; rhwystrau; sylfaen dystiolaeth; gwerthuso, rhannu a chyflwyno; cyllid; archwaeth risg a chydbwyso diogelwch ac arloesedd; atebolrwydd ac uchelgais; ystwythder; alinio dyhead a gweithredu.

- Y gweithlu iechyd a gofal Cymdeithasol
  Er enghraifft, capasiti; hyfforddi ac ailhyfforddi; ymgorffori arloesedd wrth gynllunio a datblygu'r gweithlu; morâl a llesiant staff.

- Anghydraddoldebau ac annhegwch iechyd
  Er enghraifft, y gwahaniaethau mewn canlyniadau iechyd a mynediad at wasanaethau ar draws gwahanol grwpiau, cymunedau, grwpiau economaidd-gymdeithasol neu ardaloedd daearyddol.

- Ailosod ar ôl y pandemig
  Er enghraifft, ystyried sut oedd pethau cyn y pandemig, sut y gwnaeth y pandemig effeithio arnynt, a sut yr ydym am i'r sefyllfa fod.

## Materion blaenoriaeth

**9.** Rydym wedi nodi'r materion blaenoriaeth a ganlyn. Byddwn yn cadw golwg ar y rhestrau hyn drwy gydol y Senedd.

### Blwyddyn un y Chweched Senedd (2021-22)

- COVID: cadw golwg ar y pandemig, ac ailosod ar ôl COVID.
- Y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys hyfforddiant; recriwtio; cadw; anghenion; lleoedd hyfforddi; diwylliant o arloesi a gwella; ac uwch arweinyddiaeth (er enghraifft drwy wrandawiadau cyn penodi neu sesiynau craffu).
- Effaith yr ôl-groniad o ran amseroedd aros.
- Llif cleifion drwy ysbytai, gan ganolbwyntio i ddechrau ar eu rhyddhau o'r ysbyty.
- Iechyd meddwl.
- Cynllun y gaeaf ar gyfer iechyd a gofal Cymdeithasol.
- Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23.

### Blaenoriaethau posibl yn ystod blynyddoedd dau i bump o'r Chweched Senedd (2022-26)

- Gofal sylfaenol, gan gynnwys ehangu dealltwriaeth o'r ystod o wasanaethau, cyfeirio, rhagfarn anymwybodol a llythrennedd iechyd.
- Hyrwyddo ffyrdd iach o fyw ac atal problemau.
- Iechyd menywod.
- Gwasanaethau adsefydlu.
- Mynediad at wasanaethau ar gyfer cyflyrau cronig hirdymor.
- Mynd i’r afael ag anghydraddoldebau iechyd.
- Integreiddio ac ariannu gofal cymdeithasol.
- Cefnogaeth a gwasanaethau i ofalwyr di-dâl.
- Y pandemig, ac ailosod ar ôl COVID.

## Sut y byddwn yn gweithio

**10.** Rydym wedi cytuno y byddwn:

- Yn meithrin cysylltiadau i hwyluso cydweithredu adeiladol a dylanwad.
- Yn gwrando ar brofiad byw, gan gynnwys mynd ar ymweliadau pan fydd y sefyllfa iechyd y cyhoedd yn caniatáu.
- Bod yn effro i'n cyfarfodydd ac yn hyblyg o ran amseroedd ein cyfarfodydd.
- Cynnal cyfarfodydd hybrid fel mater o drefn.